Skills for Learning Professionals

The Sector Skills Council for Lifelong Learning

New drive to boost skills in science, engineering, manufacturing and technology industries

A new agreement between the government and employers will attempt to tackle skills shortages in key industries. As part of the arrangement with Semta, the Sector Skills Council (SSC) for science, engineering and manufacturing industries in the UK, the government has earmarked £65 million from its Train to Gain budget to invest in the skills of the sectors' workforce. The first of its kind, the government hopes to develop similar partnerships with other SSCs to help equip other key sectors in the UK. Read more (wired-gov.net)

Learners success rates continue to increase

Figures published by the Learning and Skills Council show that the success rates of learners in further education (FE) colleges and work based learning (WBL) are high and continue to improve. Success rates in FE colleges across all ages for the academic year 2006/2007 have reached a new high of 78% - a significant rise on the 53% attained ten years ago. Skills Minister David Lammy said, 'These welcome results are clear evidence of the benefits of focusing on quality and standards.' Read more (DIUS)

Adult learners awarded in Wales

Adults with learning difficulties have been recognised for their education achievements in Wales recently. Students who earned honours on the Learning Steps programme that offers classes in computer skills and arts and crafts were celebrated by Mayor Councillor of Rhondda Cynon Taf, Margaret Davies, who said of their success, 'It just goes to show there really is something for everyone when it comes to adult learning.' Read more (icWales)

Sgiliau i Broffesiynolion Dysgu

Y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Dysgu Gydol Oes

Ymgyrch newydd i hybu sgiliau mewn diwydiannau gwyddoniaeth, peiriannu a gweithgynhyrchu

Bydd cytundeb newydd rhwng y llywodraeth a chyflogwyr yn ceisio mynd i'r afael â phrinderau sgiliau mewn diwydiannau allweddol. Fel rhan o'r trefniant â Semta, y Cyngor Sgiliau Sector (CSS) ar gyfer diwydiannau gwyddoniaeth, peiriannu a gweithgynhyrchu yn y DU, mae'r llywodraeth wedi clustnodi £65 miliwn o'i chyllideb Train to Gain i'w fuddsoddi yn sgiliau gweithlu'r sectorau. Dyma'r bartneriaeth gyntaf o'i math, ond mae'r llywodraeth yn gobeithio datblygu partneriaethau tebyg â CSSau eraill i helpu i alluogi sectorau allweddol eraill yn y DU. Darllenwch ragor (wired-gov.net)

Cyfraddau llwyddo dysgwyr yn parhau i godi

Mae ffigurau a gyhoeddir gan y Cyngor Dysgu a Sgiliau yn dangos bod cyfraddau llwyddo dysgwyr mewn colegau addysg bellach (AB) a dysgu seiliedig ar waith (DSW) yn uchel ac yn parhau i wella. Mae cyfraddau llwyddo mewn colegau AB ar draws pob oedran am y flwyddyn academaidd 2006/2007 wedi cyrraedd anterth newydd o 78% - codiad sylweddol ar y 53% a gafwyd deng mlynedd yn ôl. Dywedodd y Gweinidog Sgiliau David Lammy, 'Mae'r canlyniadau calonogol hyn yn dystiolaeth glir o fanteision canolbwyntio ar ansawdd a safonau.' Darllenwch ragor (DIUS)

Gwobrwyo oedolion sy'n dysgu yng Nghymru

Mae oedolion ag anawsterau dysgu wedi cael eu cydnabod am eu cyflawniadau addysgol yng Nghymru yn ddiweddar. Cafodd myfyrwyr a enillodd anrhydedd ar y rhaglen Camau Dysgu sy'n cynnig dosbarthiadau mewn sgiliau cyfrifiadur, celfyddydau a chrefftau eu dathlu gan Faer Cynghorydd Rhondda Cynon Taf, Margaret Davies, a ddywedodd am eu llwyddiant, 'Mae'n dangos bod yna rywbeth i bawb ym maes dysgu i oedolion.' Darllenwch ragor (icWales)

Developing skills will strengthen our economy says Sir Reg Empey

Speaking at the 'State of the City' conference in Belfast, Northern Ireland Employment and Learning Minister Sir Reg Empey, called on key decision makers to help encourage Northern Ireland's workforce to develop world class skills. 'Our productivity, only 87.1% of the UK average, needs to be improved. We need to do this through the development and enhancement of skills and I call on all those with influence to work to make this a reality', he said. Read more (DELNI)

£1.5 million support for Scotland's international lifelong learning strategy

A £1.5 million fund to support the development of Scotland's international lifelong strategy was announced by the Scottish Government last month. Split over the next three years, the funding is intended to enhance Scotland's profile in key international markets and increase college and university engagement in international education. Read more (Scottish Government)

Research highlights lack of progress for black and minority ethnic college staff

Research carried out by the Centre for Excellence in Leadership has found that despite the publication of a landmark report by the Commission for Black Staff in Further Education six years ago, the position of black and minority ethnic (BME) staff in English colleges remains largely unchanged. Continued problems of low morale and the under representation of BME staff in management roles have been highlighted by the research, of which CEL's Chief Executive, Lynne Sedgmore has said 'This is clearly a leadership issue.' Read more (wired-gov.net)

Bydd datblygu sgiliau yn cryfhau ein heconomi yn ôl Syr Reg Empey

Gan annerch cynhadledd 'State of the City' yn Belfast, galwodd Gweinidog Cyflogaeth a Dysgu Gogledd Iwerddon, Syr Reg Empey, ar wneuthurwyr penderfyniadau allweddol i helpu i annog gweithlu Gogledd Iwerddon i ddatblygu sgiliau o'r radd flaenaf. 'Mae angen gwella'n cynhyrchedd, sydd ond 87.1% o gyfartaledd y DU. Mae angen i ni wneud hyn drwy ddatblygu a gwella sgiliau a galwaf ar bawb sydd â dylanwad i weithio i wireddu hyn', meddai. Darllenwch ragor (DELNI)

£1.5 miliwn mewn cymorth i strategaeth ryngwladol dysgu gydol oes yr Alban

Cafodd cronfa £1.5 miliwn i gefnogi datblygiad strategaeth ryngwladol dysgu gydol oes yr Alban ei gyhoeddi gan weithrediaeth yr Alban y mis diwethaf. Bwriedir i'r arian, a gaiff ei rannu dros y tair blynedd nesaf, wella proffil yr Alban mewn marchnadoedd rhyngwladol a chynyddu cyfranogiad colegau a phrifysgolion mewn addysg ryngwladol. Darllenwch ragor (Llywodraeth yr Alban)

Ymchwil yn amlygu diffyg cynnydd i staff du ac ethnig lleiafrifol colegau

Mae ymchwil gan y Ganolfan dros Ragoriaeth mewn arweinyddiaeth wedi darganfod bod sefyllfa staff du ac ethnig lleiafrifol (BME) mewn colegau yn Lloegr yn aros heb ei newid i raddau helaeth, a hynny er gwaethaf cyhoeddi adroddiad o bwys gan y Comisiwn dros Staff Du mewn addysg bellach chwe blynedd yn ôl. Mae problemau parhaus morâl isel a chynrychiolaeth annigonol staff BME mewn swyddi rheoli wedi cael eu hamlygu gan yr ymchwil, a dywedodd Prif Weithredwr CEL, Lynne Sedgmore, am y sefyllfa: 'Mae hyn yn amlwg yn fater o arweinyddiaeth.' Darllenwch ragor (wired-gov.net)

CURRENT CONSULTATIONS

Policy Initiative & Region	Detail	Closing date
Reducing the proportion of young people not in education, employment	This document consults on proposals to reduce the number of	11 August 2008

YMGYNGHORIADAU PRESENNOL

Menter Bolisi a Rhanbarth	Manylion	Dyddiad cau
Lleihau'r gyfran o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth	Mae'r ddogfen hon yn ymgynghori ar gynigion i leihau nifer y	11 Awst 2008

or training in Wales	young people not in education, employment or training (NEET) in Wales. It is part of a series of themed papers which address skills issues identified in Skills that Work for Wales, the draft skills and employment strategy. Visit the Welsh Assembly website.		neu hyfforddiant yng Nghymru	bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NACH) yng Nghymru. Mae'n rhan o gyfres o bapurau thema sy'n ymdrin â materion sgiliau a nodwyd yn Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru, y strategaeth ddrafft sgiliau a chyflogaeth. Ewch i wefan Cynulliad Cymru.	
DIUS Single Equality Scheme	The Department of Innovation, Universities and Science is consulting on its draft Single Equality Scheme, which sets out its approach to equality and diversity and identifies the way in which it will take action both as an employer and a policy department. Visit the DIUS website.	4 August 2008	Cynllun Cydraddoldeb Sengl DIUS	Mae'r Adran dros Arloesi, Prifysgolion a Gwyddoniaeth yn ymgynghori ar ei Chynllun Cydraddoldeb Sengl drafft, sy'n nodi ei hymagwedd at gydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn pennu sut y bydd yn gweithredu fel cyflogwr ac fel adran bolisi fel ei gilydd. Ewch i wefan DIUS.	4 Awst 2008
Higher Education at Work – High Skills: High Value	This High Level Skills consultation will seek views from employers, students,	7 July 2008	Addysg Uwch yn y Gwaith – Sgiliau Uchel: Gwerth Uchel	Bydd yr ymgynghoriad hwn ar Sgiliau Lefel Uchel yn gofyn am farn cyflogwyr, myfyrwyr,	7 Gorffennaf 2008

	colleges and universities on how to raise the skills of those already in work and also ensure graduates are equipped with the knowledge and abilities that businesses need to compete globally. Visit the DIUS website.			colegau a phrifysgolion ar sut i godi sgiliau'r sawl sydd eisoes yn gweithio a hefyd sicrhau bod gan raddedigion yr wybodaeth a'r galluoedd mae eu hangen ar fusnesau i gystadlu'n fyd-eang. Ewch i wefan DIUS.	
Wales, Europe and the World: a framework fro 14-19 learners	This is a consultation on a non-statutory framework to support the Welsh dimension of the learning experience of 14-19 year old learners. Visit the Welsh Assembly website.	30 June 2008	Cymru, Ewrop a'r Byd: fframwaith ar gyfer dysgwyr 14-19	Mae hwn yn ymgynghoriad ar fframwaith anstatudol i gefnogi dimensiwn Cymreig profiad dysgu dysgwyr 14-19 oed. Ewch i wefan Cynulliad Cymru.	30 Mehefin 2008
Promoting achievement, valuing success: a strategy for 14-19 qualifications	This consultation seeks views on proposals for achieving the vision set out in the 14-19 education and skills White paper, of a qualifications system in which every young person can prepare themselves through education and training to	23 June 2008	Hybu cyflawniad, gwerthfawrogi llwyddiant: strategaeth ar gyfer cymwysterau 14-19	Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am sylwadau ar gynigion ar wireddu'r weledigaeth a nodwyd yn y Papur Gwyn addysg a sgiliau 14-19, sef system gymwysterau lle gall pob person ifanc baratoi ei hun drwy gyfrwng addysg a hyfforddiant i lwyddo mewn	23 Mehefin 2008

	make a success of their life. Visit the DCSF website.	
Inquiry into the Future of Lifelong Learning	NIACE is hosting an independent commission of Inquiry into the Future of Lifelong Learning (IFLL) and is currently calling for evidence on the theme of 'Lifelong learning, crime and social exclusion'. Visit the website.	12 June 08

	bywyd. Ewch i wefan DCSF.	
Ymchwiliad i Ddyfodol Dysgu Gydol Oes	Mae NIACE yn cynnal Comisiwn Ymchwilio annibynnol i Ddyfodol Dysgu Gydol Oes ac ar hyn o bryd yn galw am dystiolaeth ar thema 'Dysgu gydol oes, trosedd ac allgáu cymdeithasol'. Ewch i'r wefan.	12 Mehefin 2008

For further information or to subscribe to this publication please e-mail:
chloejoyce@lluk.org

I gael gwybodaeth bellach neu i danysgrifio i'r cyhoeddiad hwn anfonwch e-bost at:
chloejoyce@lluk.org

skills FOR BUSINESS

sgiliau AR GYFER BUSNES

**** Sylwch fod y tudalennau â hyperddolenni yn cyfeirio'n uniongyrchol at wefannau Saesneg. Cysylltwch â gwefannau unigol i gael y storïau llawn yn y Gymraeg.***